***Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.***

# Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant Grŵp CCAF

## Ymrwymiad

O fewn y polisi hwn, mae'r term "Grŵp" yn cyfeirio at yr holl ddarparwyr o fewn Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro.

Yn sail i'r polisi hwn mae gweledigaeth y Grŵp – Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol, a bydd yn cefnogi ein gwaith tuag at yr ysgogiadau allweddol, sef Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwf. Bydd y polisi yn ymgorffori'r egwyddorion canlynol:

- Rhaid i'r rheiny sy'n cael mynediad i Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro fod yn **rhydd rhag gwahaniaethu**.
- Caiff dysgwyr eu cefnogi i'w **galluogi** i gyflawni eu **potensial** wrth iddynt ddysgu, mewn amgylchedd sy'n lleihau neu'n cael gwared ar anfantais, yn cymryd camau i fodloni eu hanghenion ac yn annog cyfranogiad.
- Byddwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i **ddatblygu'n** llwyddiannus drwy gydol eu bywydau.

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i sicrhau diogelwch a lles pob dysgwr. Rydym yn cydnabod bod diogelu a hyrwyddo lles ein dysgwyr yn gyfrifoldeb i bawb ac rydym bob amser yn ymrwymedig i weithredu er budd gorau dysgwyr.

## Cwmpas a Diben y Polisi

Diben y polisi hwn yw sicrhau bod trefniadau diogelu effeithiol wedi'u sefydlu ar draws Grŵp CCAF. Mae gan y Grŵp ddyletswydd foesol a statudol i hyrwyddo a diogelu lles plant ac oedolion sydd mewn perygl a'u diogelu rhag niwed neu gamdriniaeth. Mae gan y Grŵp ymagwedd dim goddefgarwch tuag at gamdriniaeth ac unrhyw ymddygiad niweidiol arall.

Mae'r polisi hwn, ynghyd â'r gweithdrefnau Diogelu cysylltiedig ar draws y Grŵp, yn berthnasol i'r holl staff a dysgwyr. Er bod gan staff lefelau amrywiol o gysylltiad â dysgwyr, mae'n ofynnol i bawb fod yn ymwybodol o ddangosyddion posibl camdriniaeth ac esgeulustod a bod yn eglur ynghylch yr hyn y dylent ei wneud os oes ganddynt bryder.

Bydd y polisi hwn yn sicrhau bod arferion ar draws y grŵp yn gyson, yn unol â'u gwerthoedd cyffredin, yn hyrwyddo arfer da ac yn sicrhau bob pob dysgwr yn ddiogel. Mae'r polisi hwn yn egluro bod disgwyl i holl ddarparwyr o fewn y grŵp gael eu gweithdrefnau diogelu eu hunain sy'n gadarn ac yn cydymffurfio â'r gyfraith er mwyn sicrhau diogelwch a lles dysgwyr.

Byddwn yn sicrhau bod dysgwyr ar bob lefel a math o ddarpariaeth yn cael eu cyfeirio'n glir at unrhyw sefydliad neu gorff allanol sy'n goruchwylio darpariaeth, safonau, disgwyliadau neu uniondeb, megis corff dyfarnu, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd neu Swyddfa'r Dyfarnwyr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch (nid yw'r rhestr hon yn un gyflawn).



| | |
|---|---|
| **Adolygiad Rhif:** | 3 |
| **Dyddiad Adolygu Diwethaf** | 19/06/2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | 19/06/2026 |

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob dysgwr ar bob rhaglen ddysgu ni waeth beth fo'i ddull neu leoliad astudio.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl bartneriaid a sefydliadau breiniol.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i ymwelwyr y Grŵp.

## Datganiadau Polisi

Mae'r polisi diogelu cynhwysfawr hwn yn amlinellu ymagwedd gyfunol y Grŵp at Ddiogelu. Nid yw'r polisi hwn yn amlinellu'r prosesau a'r gweithdrefnau unigol ar gyfer pob sefydliad, yn hytrach mae wedi'i lunio i ategu a chyfnerthu'r gweithdrefnau diogelu presennol sydd ar waith ar draws y grŵp.

Bydd y polisi hwn yn sicrhau bod arferion ar draws y grŵp yn gyson, yn unol â'u gwerthoedd cyffredin, yn hyrwyddo arfer da ac yn sicrhau bob pob dysgwr yn ddiogel.

## Diogelu

Diogelu yw'r camau a gymerir er mwyn hyrwyddo lles dysgwyr a'u gwarchod rhag niwed. Mae Diogelu yn golygu:

- Amddiffyn ein dysgwyr rhag camdriniaeth a niwed
- Atal niwed i iechyd neu ddatblygiad dysgwyr
- Sicrhau bod plant yn tyfu i fyny dan amgylchiadau sy'n gyson gyda darparu gofal diogel ac effeithiol
- Gweithredu er mwyn galluogi pob dysgwr i gael y canlyniadau gorau.

Mae'r tîm diogelu ym mhob sefydliad yn sicrhau bod y Grŵp yn cydymffurfio â phob deddfwriaeth statudol, gan gynnwys y Ddyletswydd Atal.

## Amddiffyn Plant

Mae amddiffyn plant yn rhan o'r broses ddiogelu. Mae'n canolbwyntio ar warchod plant unigol a nodwyd yn blant sy'n dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol. Mae hyn yn cynnwys gweithdrefnau amddiffyn plant sy'n manylu ar sut i ymateb i bryderon ynghylch plentyn.

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i sicrhau diogelwch a lles pob dysgwr. Rydym yn cydnabod bod diogelu a hyrwyddo lles ein dysgwyr yn gyfrifoldeb i bawb ac rydym bob amser yn ymrwymo i weithredu er budd gorau ein dysgwyr. Caiff y polisi hwn ei adolygu'n rheolaidd gan y Person Diogelu Dynodedig (DSP) er mwyn sicrhau ei fod yn aros yn gyfredol ac yn ymgorffori'r holl gyngor a chanllawiau diogelu lleol a chenedlaethol. Cafodd ei gwblhau'n unol â deddfwriaeth y llywodraeth a chanllawiau a gweithdrefnau a nodwyd yn Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro.  Am ddisgrifiad manylach o faterion diogelu, gweler Atodiad 1 a gweithdrefnau diogelu'r grwpiau unigol.

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i greu amgylchedd diogel i'r gymuned gyfan. Nod y polisi hwn yw cefnogi pob dysgwr, yn cynnwys plant, pobl ifanc, oedolion bregus ac oedolion a all fod yn fregus am y tro.

Mae'r timau'n gyfrifol am gadw ar flaen y newyddion diweddaraf ynghylch unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth a chanllawiau presennol ac unrhyw ddeddfwriaeth a chanllawiau newydd. Mae'r tîm diogelu yn gweithredu'r egwyddorion canlynol ac yn ceisio:

- deall y cyd-destun a nodi'r risgiau;
- gweithredu i atal a lleihau niwed;
- datblygu sgiliau a gwytnwch dysgwyr i osgoi a gwrthsefyll niwed, ac adfer ohono; ac
- ymgysylltu â rhieni/gofalwyr, asiantaethau partner a'r gymuned ehangach i leihau'r risg o niwed.

Bydd y Grŵp yn cefnogi pob dysgwr drwy:

- ddatblygu'r rhaglen diwtorial a chynnwys cwricwlwm er mwyn hysbysu dysgwyr ac agor cyfleoedd i drafod materion diogelu, yn cynnwys cam-drin rhwng cyfoedion ac atal radicaleiddio;
- cynnal ethos coleg sy'n hyrwyddo amgylchedd cynhwysol a chadarnhaol, lle caiff pawb eu gwerthfawrogi;
- cofnodi a rheoli'r holl bryderon a adroddwyd;
- cynnal asesiadau risg yn ôl yr angen; a
- chydweithio â chydweithwyr mewnol ac allanol i nodi a lleihau risgiau.

## Cymorth Diogelu Penodol

**Dyletswydd Atal**
Mae'r Grŵp yn cydnabod ei ddyletswydd o dan y Canllawiau Dyletswydd Atal 2023. Mae'r rhain yn ganllawiau ar gyfer Cymru a Lloegr, a gyhoeddwyd ar 7 Medi 2023 o dan Adran 29 Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015. Daeth i rym ar 31 Rhagfyr 2023, gan ddisodli canllawiau 2015 a ddaeth i rym ym mis Gorffennaf 2015. Nod y Ddyletswydd Atal cael cymorth awdurdodau penodol megis addysg, i atal pobl rhag dod yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth. 'Mae'r ddyletswydd yn helpu i sicrhau bod pobl sy'n agored i radicaleiddio yn cael cefnogaeth fel y byddent yn ei chael o dan brosesau diogelu'.

Bydd pob aelod o staff yn cael hyfforddiant ac arweiniad ar y Ddyletswydd Atal fel bod modd iddynt adnabod dysgwyr a allai fod yn agored i radicaleiddio a deall sut i adrodd eu pryderon. Mae gofyn i staff gadw llygad am newidiadau yn ymddygiad dysgwyr a allai ddynodi bod angen iddynt gael eu gwarchod o bosib.

Cyfrifoldeb Person Diogelu Dynodedig pob sefydliad yw codi ymwybyddiaeth o risgiau radicaleiddio a sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn derbyn hyfforddiant digonol. Bydd pob Person Diogelu Dynodedig yn cadw ar flaen y bygythiadau a materion lleol a chenedlaethol diweddaraf ynghylch radicaleiddio, yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r bygythiad cyfredol, mwyaf i'w dysgwyr. Mae gweithio ar y cyd â sefydliadau allanol yn hanfodol i gyflawni hyn.

Bydd y Grŵp yn ceisio datblygu gwytnwch dysgwyr i radicaleiddio drwy hyrwyddo gwerthoedd Prydeinig, egwyddorion democrataidd a hyrwyddo parch at ddiwylliannau eraill.

**Cam-drin rhwng Cyfoedion**

Mae'r Grŵp yn cymryd bwlio ac aflonyddu o ddifrif, ac mae wedi ymrwymo i sicrhau bod pob dysgwr yn cael eu trin yn gyfartal ac yn barchus. Ni chaiff aflonyddu a chamymddwyn rhywiol ei oddef. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cyfeirio at unigolion pan fyddant y tu allan ac oddi mewn i'n

sefydliadau fel ei gilydd, ac mae'n cynnwys defnyddio'r rhyngrwyd a dyfeisiau cyfathrebu electronig fel e-bost, ffonau symudol, consolau gemau, safleoedd rhwydweithio cymdeithasol etc.
Mae'r Grŵp yn cydnabod bod potensial ar gyfer cam-drin rhwng pobl ifanc, a bydd staff yn cadw golwg am arwyddion o gam-drin rhwng cyfoedion. Bydd staff yn dilyn gweithdrefnau diogelu'r sefydliad i adrodd a rheoli unrhyw bryderon.

Cafodd y polisi hwn ei ddiweddaru ym mis Gorffennaf 2021 gan ddefnyddio canllawiau Llywodraeth Cymru, 'Canllawiau i leoliadau addysg am gam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion'. Am ragor o wybodaeth darllenwch bolisïau a gweithdrefnau Bwlio ac Aflonyddu'r sefydliad.

**Dysgwyr Bregus**
Mae rhai dysgwyr yn fwy bregus nag eraill o ganlyniad i angen gofal neu gymorth penodol ac amgylchiadau personol neu amgylchiadau cartref. Maent yn cynnwys dysgwyr sydd:

- ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, neu sydd wedi bod arni;
- yn derbyn gofal neu wedi bod mewn gofal;
- yn ofalwyr ifanc;
- yn geiswyr lloches;
- wedi profi trawma sylweddol (diweddar neu hanesyddol);
- ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY); a/neu
- anabledd.

Bydd y Grŵp yn darparu cymorth ychwanegol ar gyfer dysgwyr bregus yn ôl yr angen. Bydd y timau diogelu ym mhob sefydliad yn gweithio gyda chydweithwyr mewnol ac allanol i nodi a darparu'r cymorth hwn, gan gyfeirio dysgwyr at sefydliadau allanol fel sy'n briodol.

**Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM)**
Mae Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod yn ffurf ar gam-drin plant ac o'r herwydd fe ymdrinnir ag ef o fewn y polisi hwn. Mae Llywodraeth y DU wedi ysgrifennu cyngor a chanllawiau ar FGM sy'n datgan; "Mae FGM yn cael ei ystyried yn gam-drin plant yn y DU ac yn ymyriad difrifol â hawliau dynol merched a menywod. Ym mhob achos lle caiff FGM ei weithredu ar blentyn y mae'n ymyriad ar hawl y plentyn i fywyd, ei hawl i gyfanrwydd ei gorff, a'i hawl i iechyd. Mae Llywodraeth y DU wedi llofnodi nifer o gyfreithiau hawliau dynol rhyngwladol yn erbyn FGM, yn cynnwys y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn."

Mae'r Grŵp yn cydnabod bod gweithredu FGM yn y DU yn drosedd a bydd pob aelod o staff yn adrodd unrhyw bryderon bod FGM wedi, neu ar fin, cael ei weithredu ar ddysgwr o dan 18 oed i'r heddlu.

**Dysgwyr 14-16 Oed**
Mae myfyrwyr 14-16 oed sydd ag ysgol yn darparu eu haddysg yn bennaf, yn cael eu cynnwys ym mhob agwedd ar y polisi hwn pan maent yn bresennol ar unrhyw un o safleoedd y Grŵp. Bydd y timau diogelu ym mhob sefydliad yn cysylltu ag awdurdodau lleol

a'r arweinwyr diogelu mewn ysgolion i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu yn ôl yr angen. Bydd polisïau Diogelu Data a Phreifatrwydd y sefydliad yn adlewyrchu pwysigrwydd rhannu gwybodaeth os oes ei hangen ar gyfer diogelu plant.



**Recriwtio mwy Diogel**
Mae pob sefydliad o fewn y grŵp yn cydymffurfio â gweithdrefnau recriwtio mwy diogel, gan gynnwys:

- cynnal gwiriadau Datgelu a Gwahardd er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn addas ar gyfer cyflogaeth,
- nodi a gwrthod ymgeiswyr nad ydynt yn addas i weithio â phlant, pobl ifanc ac oedolion bregus,
- ymateb i bryderon ynghylch addasrwydd ymgeiswyr yn ystod y broses recriwtio,
- ymateb i bryderon ynghylch addasrwydd gweithwyr a gwirfoddolwyr ar ôl iddynt ddechrau eu swydd, a
- sicrhau bod pob aelod o staff a gwirfoddolwr yn cymryd rhan mewn sesiwn gynefino sy'n cynnwys diogelu/amddiffyn plant.

Dylai tîm AD pob sefydliad sicrhau bod ganddynt bolisïau a gweithdrefnau clir mewn perthynas â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (gwiriadau DBS) ac ymddygiad staff mewn perthynas â diogelu. Bydd y timau hyn yn sicrhau bod aelodau o staff sydd wedi cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yng Nghymru yn ymwybodol o'r Cod Ymddygiad Proffesiynol a'r disgwyliad o fewn y Cod mewn perthynas â diogelwch a llesiant dysgwyr yn eu gofal a chynnwys diogelu cysylltiedig.

Bydd gan bob sefydliad bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli honiadau yn erbyn aelodau o staff ac yn dangos eu dyletswydd gofal i gefnogi pawb dan sylw yn ystod y broses.

**Diogelwch Ar-lein**
Bydd bob sefydliad yn cyfeirio at ganllawiau a chyngorLlywodraeth Cymru a ddisgrifir yn y ddogfen Ffrydio byw a fideo gynadledda: arferion ac egwyddorion diogelu er mwyn sicrhau bod ein cymuned dysgwyr yn cadw'n ddiogel wrth ddysgu ar-lein. Bydd staff a dysgwyr yn derbyn cyngor a hyfforddiant rheolaidd ynglŷn â diogelwch ar-lein.

## Adrodd am Bryderon

**Pryd i fod yn Bryderus**
Gallai dysgwyr fod mewn perygl yn eu teuluoedd eu hunain, mewn lleoliad sefydliadol neu gymunedol, gan rai y maent yn eu hadnabod, neu yn fwy anaml, gan ddieithryn.

Gall cam-drin fod ar ffurf:

- Cam-drin corfforol
- Cam-drin rhywiol
- Cam-drin emosiynol
- Esgeulustod
- Cam-drin ariannol
- Cam-drin seicolegol

Am arwyddion a dangosyddion cam-drin, gweler Atodiad 1.

**Dyletswydd i Adrodd**
Mae dyletswydd ar bob rhanddeiliad (yn cynnwys llywodraethwyr ac ymwelwyr) i adrodd am bryderon diogelu yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Bydd gan bob sefydliad o

fewn Grŵp CCAF eu gweithdrefnau adrodd eu hunain a nodir o fewn eu dogfen Gweithdrefnau Diogelu. Rhaid adrodd os oes gan unigolyn bryder neu amheuaeth bod dysgwr

- yn profi, neu mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed[1];
- angen gofal a chymorth;
- angen gofal a chymorth, ac o ganlyniad i'r anghenion hynny, nid yw'n gallu amddiffyn ei hun rhag camdriniaeth, esgeulustod, neu'r perygl o hynny.

Os oes gan unigolyn wybodaeth, pryderon neu amheuaeth bod plentyn yn dioddef, wedi dioddef neu'n debygol o fod mewn perygl o niwed, mae'n ddyletswydd ar yr unigolyn hwnnw i sicrhau bod y pryderon yn cael eu cyfeirio at dîm diogelu'r sefydliad. Mae hyn yn sicrhau bod y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu, sydd â dyletswyddau a phwerau statudol i wneud ymholiadau ac ymyrryd pan fo angen, yn cael eu hysbysu.

**NID MATER O DDEWIS PERSONOL YW HYN.**

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r:

- Holl ddysgwyr o fewn y Grŵp, waeth beth fo'u dull neu leoliad astudio.
- Holl aelodau staff o fewn y Grŵp.
- Holl bartneriaid a sefydliadau breiniol.
- Ymwelwyr â'r Grŵp.

## Cyfrifoldebau

**Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod:**

- Y polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) ac y rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Y Prif Fwrdd yn cymeradwyo'r polisi.

**Mae gan yr Uwch Dimau Rheoli:**

- Gyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod trefniadau ar gyfer diogelu yn effeithiol ar draws y grŵp. Maent yn gyfrifol am ddatblygu trefniadau llywodraethu effeithiol a sicrhau bod polisïau perthnasol wedi'u sefydlu ar draws y grŵp. Mae hyn yn cynnwys penodi'r Arweinydd Diogelu Dynodedig a'r Person(au) Diogelu Dynodedig.

**Bydd y Personau Diogelu Dynodedig (DSPs) yn:**

- Sicrhau bod gan bob sefydliad unigol weithdrefnau diogelu ar waith sy'n cefnogi'r gwaith o reoli diogelu'n effeithiol ar draws y grŵp.
- Sicrhau bod y polisi hwn a'r gweithdrefnau diogelu'n cael eu gweithredu'n effeithiol ar draws y Grŵp.
- Sicrhau bod systemau wedi'u sefydlu i gadw cofnodion manwl, cywir a diogel o bryderon ac atgyfeiriadau drwy ddefnyddio mecanweithiau cofnodi achosion. (MyConcern)

[1] Gweler Atodiad 1 am eglurhad pellach

- Ymgymryd â hyfforddiant priodol ac yn sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant priodol.
- Cefnogi'r Grŵp i ddeall gofynion y Ddyletswydd Atal a darparu cyngor a chymorth ar amddiffyn y rhai sydd mewn perygl o radicaleiddio.
- Cefnogi'r Grŵp i ddeall gofynion y ddeddfwriaeth diogelu a darparu cyngor a chymorth ar amddiffyn y rhai sydd mewn perygl o niwed.
- Sicrhau y caiff y polisi diogelu ei adolygu'n flynyddol.
- Gweithio mewn dull cydweithredol er mwyn sicrhau bod diogelu ar draws y grŵp yn gyson ac yn gadarn.

**Bydd yr holl staff yn:**

- Darllen a deall y polisi diogelu ac yn deall y gweithdrefnau adrodd ar gyfer eu sefydliad perthnasol o fewn y Grŵp.
- Ymwybodol o arwyddion a symptomau posib o gam-drin.
- Gwybod sut i leisio pryder os oes angen.
- Deall bod diogelu yn gyfrifoldeb i bawb.

**Bydd yr holl staff yn:**

- Darllen a deall y polisi diogelu.
- Ymwybodol o arwyddion a symptomau posib o gam-drin.
- Gwybod sut i leisio pryder os oes angen.
- Deall bod diogelu yn gyfrifoldeb i bawb.

**Bydd pob dysgwr yn:**

- Mynychu sesiynau cynefino a thiwtorialau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi a'r materion a godir ganddo.
- Ymddwyn mewn ffordd sy'n cefnogi'r polisi, gan gynnwys mynegi unrhyw bryderon amdanynt eu hunain, dysgwyr eraill neu sefyllfaoedd gyda staff.
- Cadw eu hunain ac eraill yn ddiogel.

**Deddfwriaeth a Chanllawiau**

Rhaid i weithdrefnau diogelu ar draws y Grŵp gymryd y ddeddfwriaeth ganlynol i ystyriaeth:

- Deddf Gwrth-Derfysgaeth a Dedfrydu 2021
- Deddf Diogelu Rhyddidau (2012)
- Deddf Hawliau Dynol (1998)
- Deddf Plant (2004)
- Deddf Cydraddoldeb (2010)
- Deddf Addysg (2002)
- Y Strategaeth Atal (2011)
- Mewn Dwylo Diogel: Gweithredu Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion yng Nghymru
- Canllawiau'r Ddyletswydd Atal (2023)
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019)
- Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (2021) dogfen rhif: 283/2022
- Cardiff and Vale Regional Safeguarding Board

- Gweithdrefnau Cwyno Cyrff Llywodraethu Ysgolion yng Nghymru 2012
- Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006
- Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-fwlio 2003
- Ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Mae rhan 7 o'r Ddeddf yn berthnasol i ddiogelu)
- Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywaidd (2003)
- Conffederasiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
- Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Trais yn y Cartref a Thrais Rhywiol (Cymru)

Nid yw'r rhestr hon yn un gyflawn ac mae'n bosib yr ychwanegir ati yn y dyfodol pan fydd mesur yn cael ei basio naill ai gan Lywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru ar faterion sydd wedi'u datganoli o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Rhannu gwybodaeth ar draws y grŵp:**

Lle bydd angen i un aelod o'r grŵp rannu data ar ddysgwyr i aelod arall (er enghraifft, fel rhan o'r broses drosglwyddo), bydd hynny'n cael ei wneud ar sail gwbl gyfrinachol ac os oes wir angen i rywun wybod. Bydd y wybodaeth yn cael ei rhannu rhwng y Personau Diogelu Dynodedig ym mhob lleoliad. Bydd y Polisi Diogelu yn ei gwneud yn glir y caiff y wybodaeth hon ei rhannu ar sail gyfyngedig iawn o fewn y grŵp a dim ond pan fo'n hanfodol er llesiant a diogelwch y dysgwr.

**Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, ysgrifennwyd y polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

**Safonau'r Gymraeg**

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg. Mae'r cyfrifoldebau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, yn unol â hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg ac o ganlyniad yn ei gwneud hi'n haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd bob dydd.

**Cyfeiriadau**

Gweithdrefnau Diogelu Coleg Caerdydd a'r Fro
Gweithdrefnau Diogelu ACT
Gweithdrefnau Diogelu ALS

**Cyfathrebu a Storio**

Caiff y polisi hwn ei gyhoeddi ar wefan y cwmni.
Caiff y polisi hwn ei storio ar fewnrwyd y cwmni.
Caiff y polisi hwn ei rannu â dysgwyr.
Bydd y polisi hwn yn cael ei gyfathrebu a'i storio gan bob sefydliad drwy eu sianeli cyfathrebu mewnol a rheoli polisi.

**Geirfa**

Dim

**Cymeradwyo, Addasu ac Adolygu**

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 2 flynedd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dyddiad cymeradwyo:** | **19eg Mehefin 2024** | **Rheolwr Cyfrifol:** | **Uwch Bennaeth Taith y Dysgwr** |
| **Cymeradwywyd gan:** | **Y Prif Fwrdd** | **Arweinydd Gweithredol:** | **Pennaeth Cynorthwyol Ansawdd, Addysgu a Dysgu** |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | **19eg Mehefin 2026** | **Hygyrch i Fyfyrwyr:** | **Ydy** |

**Atodiad 1**

Dylai pob aelod o staff ddod yn gyfarwydd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru am gyngor ac arweiniad.

**Mae diogelu yn gyfrifoldeb i bawb.**

Mae diogelu effeithiol yn gofyn am:

- I bob aelod o staff a rhanddeiliaid chwarae eu rhan a chyfrannu at ddiogelu a hyrwyddo llesiant dysgwyr.
- Rhannu gwybodaeth yn unol â'r canllawiau[2].
- I staff weithio ar y cyd a chydweithwyr mewnol ac allanol i gael gwell dealltwriaeth o'n dysgwyr, eu hamgylchiadau a'u hanghenion gofal, cymorth a diogelwch.
- Datblygu perthnasoedd gweithio cydweithredol i gefnogi dysgwyr sydd mewn perygl.

**Diogelu Plant[3]**

Mae gan bawb gyfrifoldeb i ddiogelu plant. Gall pob plentyn gael ei niweidio, ei roi mewn perygl o gael ei niweidio neu ei gam-drin, waeth beth fo'i oedran, rhywedd, crefydd neu ethnigrwydd. Mae deddfwriaeth diogelu a chanllawiau'r llywodraeth yn nodi bod diogelu'n golygu:

- amddiffyn plant rhag camdriniaeth
- atal niwed i iechyd neu ddatblygiad plant
- sicrhau bod plant yn tyfu i fyny dan amgylchiadau sy'n gyson gyda darparu gofal diogel ac effeithiol

**Dylai hawliau'r plentyn fod yn ganolog i'n dull o weithredu.**

**Arwyddion a Dangosyddion o Gam-drin, Esgeulustod a Niwed Posib mewn Plentyn**
Mae'r dolenni isod yn darparu disgrifiadau o'r cam-drin, esgeulustod a niwed a allai arwain at achosi plentyn i fod mewn perygl. Mae'n bwysig nodi NAD yw'r rhain yn rhestrau cyflawn. Yn hytrach, fe'u darperir er mwyn cynnig awgrymiadau i ymarferwyr a allai eu rhybuddio nhw o'r posibilrwydd bod plentyn neu oedolyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

**Cam-drin corfforol**

**Cam-drin Rhywiol**

**Esgeulustod**

**Cam-drin ac Esgeulustod Emosiynol**

**Oedolion Mewn Perygl**

---

[2] Rhannu gwybodaeth i ddiogelu plant: canllawiau https://www.llyw.cymru/rhannu-gwybodaeth-er-mwyn-diogelu-plant
[3] Y diffiniad cyfreithiol o blentyn yw unrhyw un o dan 18 oed

Gall oedolion fod mewn perygl o'r un mathau o gam-drin â phlant - corfforol, rhywiol ac emosiynol. Gallant hefyd fod mewn perygl o gam-drin neu esgeulustod ariannol, yn arbennig os ydynt yn dibynnu ar gefnogaeth eraill os oes ganddynt anghenion gofal neu gymorth.

Gall oedolion bregus gynnwys y rhai:

- sydd ag anabledd;
- sydd ag anhawster dysgu sylweddol;
- nad ydynt yn gallu amddiffyn eu hunain neu adrodd camdriniaeth;
- digartref; a/neu
- camddefnyddio cyffuriau neu alcohol.

Mae'r ddolen isod yn arwain at ddisgrifiad o'r gwahanol ffurfiau ar gam-drin ac esgeulustod y gall oedolion bregus eu profi, a'r ffyrdd y gall y gamdriniaeth amlygu ei hun. Mae'n bwysig nodi y gellir cysylltu camdriniaeth i un achos penodol, neu i drais ac esgeulustod parhaus a/neu barhaol. Gall y gamdriniaeth godi o un mater, fel camddefnyddio alcohol neu gyffuriau, neu groniad o amgylchiadau ac achosion straen, fel camdriniaeth a thrais domestig, arwahanrwydd cymdeithasol ac amddifadedd.

Dylai staff fod yn ystyriol nad yw asesu niwed yn golygu rhestru'r ffactorau risg sy'n cronni'n unig, a bod rhestr hir yn golygu mwy o debygoliaeth o niwed: gall un ffactor risg gael effaith sylweddol.

[Awgrymiadau Ymarfer: Arwyddion a Dangosyddion Posibl o Gamdriniaeth ac Esgeulustod mewn Oedolyn sy'n Wynebu Risg]